

**Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a
gynhaliwyd ar
Zoom**

Nos Fawrth, Gorffennaf 20, 2021 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Preseanol Cynghorwyr: Peredur Jenkins, Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Rhun Prys Jones, Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Karen G. Goswell

Is Gadeirydd: Meurig Ashton

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones

Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith

Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts

Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton

Un Llais Cymru (2): Karen G. Goswell, Meurig Ashton.

4. Datgan diddordeb.

Roedd Emlyn Roberts a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio Eitem 8.a.

5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 18, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

6. Materion yn codi o'r cofnodion Mai 18, 2021

Doedd dim materion yn codi.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (18/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher Mai 26, 2021 trwy Star Leaf. Amgáu mae Agenda a Chofnodion cyfarfod cynhaliwyd dydd ar Chwefror 3, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (19/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion Star Leaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (21/5/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III, Ganllwyd. Bydd y ffordd ar gau yn 2/6/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (24/5/2021) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod am waith torri coed sy'n cael ei wneud yn Gallt Ffridd Goch, Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (25/5/2021) i CNC yn rhoi gwybod rydym yn disgwyl i ohebiaeth fod yn Gymraeg a Saesneg.

d. Llythyr (24/5/2021) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn ymwneud ag ymgynghoriad mae'r Adran yn ei wneud ar orchymyn gwarchod mannau cyhoeddus: rheoli cŵn. Mae holiadur i roi sylwadau ac maent ei angen cyn Mehefin 21, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Llythyr (26/5/2021) oddi wrth Emllyn Roberts yn rhoi gwybod bod gwelediad i gyfeiriad Dolgellau o'r gyffordd ger Troedyrhiw, Rhydymain, yn cael ei amharu gan drampolîn a net o'i amgylch. Mae hon yn gyffordd sydd â phroblem gwelediad yn gyson, ac yn gyffordd sydd â llawer o ddefnydd arni gan deuluoedd lleol ac ysgol Aran Hall.

Rhodddwyd gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd i roi sylw i'r mater (26/5/2021).

e. Llythyr (26/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mehefin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL - GORFFENNAF 20, 2021

f. Anfonwyd cerdyn cydymdeimlad i Peredur Jenkins (31/5/2021).

ff. Llythyr (1/6/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda rhybudd bydd Ffordd Ddi-ddosbarth sy'n mynd heibio Cae Ceirch, Brithdir ar gau ar 7/6/2021 ond nid hwy na 3 diwrnod. Mae Morrison Utility Services angen gwneud gwaith o drosglwyddo gwasanaeth dŵr i brif beipen ddŵr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

g. Llythyr (7/6/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III sy'n mynd heibio Hen Ardd, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau yn 10/6/2021 ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

h. Llythyr (11/6/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III sy'n mynd heibio Pandy Glasdir, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau yn 17/6/2021 ond nid hwy na 3 diwrnod i BT gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

i. Llythyr (17/6/2021) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn. Maent yn gofyn os mae gennym ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod i greu memorandwm ynglŷn â Pholisi Iaith Cyngorau Cymuned a Thref yng Ngwynedd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (21/06/2021) i Cyngor Tref Nefyn yn rhoi gwybod mi fysa'n dda cael gwybod beth yw Polisi Iaith Un Llais Cymru. Gyda'r ohebiaeth rwy'n ei dderbyn ganddynt mae'r Saesneg yn gyntaf ac wedyn y Gymraeg.

Maent am godi'r mater yn eu cyfarfod nesaf.

j. Llythyr (18/6/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mehefin a Gorffennaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Anfonwyd llythyr (18/6/2021) i Un Llais Cymru yn rhoi gwybod iddynt fy mod yn synnu bod eu gohebiaeth yn dod gyda Saesneg yn gyntaf ac wedyn yn Gymraeg.

l. Llythyr (21/6/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd dyddiad cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7pm ddydd Mercher 28 Gorffennaf 2021.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL - GORFFENNAF 20, 2021

ll. Llythyr (23/6/2021) oddi wrth Cyngor Cymuned Pistyll. Maent angen ein cefnogaeth i gais maent yn cyflwyno i Cyngor Gwynedd ynglŷn â pharcio angyfreithiol 'campervans' yn ardal Nant yn Llithfaen a'r sbwriel maent yn ei adael. Am fod y broblem yn gyffredin yn y sir, maent angen Cyngor Gwynedd drefnu pwyllgor i ddelio gyda'r mater. Os mae'r broblem tu allan pŵerau'r Cyngor yna mae angen deddf gan y Llywodraeth. Os rydym am gefnogi'r cais i ni roi gwybod i Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Gwynedd.

m. Llythyr (24/6/2021) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith cryfhau arglawdd yn cael ei wneud ar ffordd A494 yn Llanycil gan orfod cau'r ffordd yn gyfan gwbl o 29/6/21 i 3/7/21 rhwng 7:00yh a 6:00yb. Bydd traffic yn cael eu arall gyfeirio ar ffyrdd A4212, A470 ac A494.

n. Llythyr (28/6/2021) oddi wrth Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod maent wedi cyhoeddi ymgynghoriad 'Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021'. Os mae ymateb i'r ymgynghoriad, sydd yn ymwneud â rheoliadau a chymwysterau mae rhaid i glercod cyngor cymuned cael, maent ei angen cyn Medi 24, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod iddynt mae angen edrych i mewn i rôl cynghorau cymuned ac ystyrio eu hail-drefnu cyn ystyrio cymwysterau clercod. Rhoddwyd hefyd gwaith mae'r Clerc yn ei wneud a phwerau sydd gan Gyngor.

o. Llythyr (2/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Gorffennaf.

Anfonwyd nodyn (2/7/2021) i Un Llais Cymru yn gofyn pam maent yn mynu anfon gohebiaeth gyda Saesneg yn gyntaf ac wedyn Cymraeg.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

p. Llythyr (8/7/2021) oddi wrth Cyngor Cymuned Llandygai i gynghorau cymuned a thref y sir. Maent yn anfodlon gydag ymateb a chyfathrebu Cyngor Gwynedd i faterion sy'n dod i sylw'r Cyngor. Oherwydd hyn, maent yn awyddus trefnu cyfarfod gyda Prif Weithredwr y Cyngor ynglŷn â'r mater. Amgáu mae llythyr.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

r. Llythyr (14/7/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd bydd ar Ffordd Dosbarth III, Abergeirw. Bydd y ffordd ar gau wrth Cadwgan ar 20/7/2021 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL - GORFFENNAF 20, 2021

s. Llythyr (19/7/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau Agenda Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd ar Star Leaf am 7.00yh ar 28/7/2021. Amgáu hefyd mae cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd oedd ar 26/5/2021.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio;

i NP5/54/98D. Codi adeilad amaethyddol a tho dros storfa tail sych (Ailgyflwyniad). Esgairgawr, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (29/5/2021).

ii. NP5/54/317E. Ychwanegu modurdai a newid dyluniad anneddiadau a ganiatawyd ar 06/07/2018 o dan gyfernod NP5/54/317B. Lleiniau 9, 10, 11 & 12, Y Wern, Rhydymain. LL40 2AJ.

Penderfynwyd cefnogi'r cais

iii. NP5/54/456A. Codi caban i'w ddefnyddio fel annedd menter wledig ynghyd a decin, parcio, trac a tanc septig cysylltiedig. Penarddwnion Fach, Pen y Main, Dolgellau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Parc rydym angen wybodaeth ar beth mae'r cais yn bwriadu ei wneud gyda cael caban i ddefnyddio fel annedd menter wledig.

b. Llythyr (7/6/2021) yn rhoi gwybod mae recordiad o'r cyfarfod Gweminarau ar sianel YouTube yr Awdurdod; mae cyfeiriad yn y llythyr.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

9. Materion Ariannol

a. Llythyr (29/5/2021) oddi wrth Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau yn ymddiheuro ni chafodd ein sieciau rhodd eu cyflwyno i'r banc. Roedd hyn oherwydd problemau gyda chyfrifon banc. Maent hefyd yn ymddiheuro ni chawsom lythyr o ddiolch am y rhoddion ac roedd hyn oherwydd anhawster cael swyddogion i lenwi swyddi. Mae disgwyl bydd cyfrif clwb y banc yn ôl yn weithredol yn fuan a bydd llythyr o ddiolch am y rhoddion yn cael ei anfon inni yn fuan. Maent yn gwerthfawrogi ein cefnogaeth i'r Clwb.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL - GORFFENNAF 20, 2021

b. Bil (11/6/2021) am £595.20 oddi wrth Signs Workshop, Ganllwyd i wneud hysbysfwrdd i'w osod yn Llanfachreth.

Talwyd am yr hysbysfwrdd (15/6/2021) a derbyniwyd y grant o £500.00 oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (29/6/2021).

c. Llythyr (10/6/2021) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £250.

ch. Costau'r Clerc am Ebrill 1, 2020 - Mawrth 31, 2021:

Swm am: stampiau + papur + amlenni + inc: £454.26 (Llynedd roedd y costau yn £473.87).

Penderfynwyd talu'r costau.

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/5/2021: £1,141.34.
Balans yn y banc ar 29/5/2021: £6,828.76. (29/5/2020: £4,139.34).

dd. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/6/2021: £1,141.35.
Balans yn y banc ar 29/6/2021: £6,105.76. (29/6/2020: £4,071.90).

10. Archwilio

a. Anfonwyd y dogfennau i'r Archwilydd Mewnol (25/5/2021).

b. Derbyniwyd (1/6/2021) adroddiad yr Archwilydd Mewnol.

Materion codwyd o'r adroddiad yw ni chafwyd Cyfarfod Blynyddol fel mae angen ac roedd gwariant a ganiateir o dan bwerau eraill wedi cael eu hadnabod o dan wariant adran 137.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

c. Anfonwyd dogfennau i'r Archwilydd Allanol (8/6/2021).

ch. Llythyr (17/6/2021) oddi wrth Archwilio Cymru. Fel gofynwyd yn y llythyr, rhoddyd 'Cofrestr o ddiddordebau aelodau 2020 – 2021' ar ein gwefan ac anfonwyd yr Adroddiad Archwilydd Mewnol iddynt (17/6/2021). Roedd y llythyr yn cael ei anfon i bob Cyngor. Mae bron 200 o gynghorau ddim wedi cwblhau archwiliad 2019-20.

d. Llythyr (1/7/2021) oddi wrth ein Harchwilydd Mewnol yn gofyn am gyfeiriad e-bost ein Cadeirydd i anfon iddo gopi o'u hadroddiad archwilio. Mae trefniadau newydd yn gofyn iddynt anfon copi o'r adroddiad mewnol i'r Cadeirydd.

Anfonwyd y cyfeiriad iddynt (1/7/2021).

11. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

Doedd dim adroddiad.

12. Unrhyw fater arall

a. Mae angen trwsio camfa sy'n arwain at bont droed sydd ar lwybr o'r ffordd A494 i ddôl Esgairgawr.

b. Mae angen trwsio giât sydd ar lwybr o ffordd Penrhiw i'r A494 ger neuadd Rhydymain.

Rhoddwyd gwybod am a., b. i Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd.

Llythyr ateb (28/6/2021) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad yn rhoi gwybod bydd y materion yn cael eu harchwilio.

c. Mae angen rhoi sylw i ochr y ffordd tudraw i Rhiwfelen, Llanfachreth oherwydd perygl i gerbyd fynd dros y dipyn i'r afon.

ch. Mae angen rhoi sylw i'r ffordd rhwng Rhiwfelen a Cwmhesgen am fod ei chyflwr yn dirywio.

d. Mae angen rhoi sylw i'r grid gwartheg a'r ffens sydd wrth ymyl Neuadd Rhydygorlan.

Rhoddwyd gwybod am c., ch., d. i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd (16/6/2021).
